**CYNLLUN GWEITHREDU YMGYSYLLTU A CHYFLOGAETH IEUENCTID**
**(Diweddariad terfynol – Medi 2013)**

| **Rhif Cam** | **Gweithredu ar gyfer Ymgysylltu a Chyflogaeth Ieuenctid** | **Cynnydd** |
|---|---|---|
| 1 | Sicrhau bod mentrau Llywodraeth Cymru yn ategu, ond nad ydynt yn dyblygu, rhaglenni a gyflwynwyd gan ddiwygiadau'r Adran Gwaith a Phensiynau i'r system les.<br><br>(CYFLOGADWYEDD a CHYFLEOEDD I GAEL CYFLOGAETH)[1] | Mae'r Cyfarwyddwr Cymunedau a Threchu Tlodi yn mynd ati i adolygu'r cylch gwaith ar gyfer y Cyd-fwrdd Cyflenwi Rhaglenni Cyflogaeth, ac yn cynnal adolygiad o'r ymgysylltu lefel uchel gyda'r Adran Gwaith a Phensiynau. Bydd y Cyfarwyddwr yn cyfarfod âr Cyfarwyddwr Gwasanaethau Dan Gontract sydd newydd ei benodi, ym mis Medi, i ddechrau trafodaethau ynghylch y Cyd-fwrdd Cyflenwi Rhaglenni Cyflogaeth.<br><br>Caiff y Cyd-fwrdd Cyflenwi Rhaglenni Cyflogaeth ei gadeirio ar y cyd gan Cyfarwyddwr Cymunedau a Threchu Tlodi a'r Adran Gwaith a Phensiynau, a chaiff gymorth gan gynghorwyr arbenigol ar lefel uwch o Gyngres Undebau Llafur Cymru; Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru; Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru; Conffederasiwn Diwydiant Prydain; yn ogystal â 'Working Links' a 'Rehab JobFit', y ddau ddarparwr rhaglenni'r Adran Gwaith a Phensiynau yng Nghymru.<br><br>Bydd swydd Dirprwy Gyfarwyddwr newydd ar gyfer Trechu Tlodi a Diwygio Lles sy'n cael ei recriwtio ar hyn o bryd ac fydd â swyddogaeth allweddol o fewn Llywodraeth Cymru i gysylltu ar lefel uchel â'r Adran Gwaith a Phensiynau. Bydd gan yr Is-adran newydd swyddogaeth allweddol o weithio ar draws Llywodraeth Cymru. Mae trechu tlodi a diwygio lles yn bynciau sy'n gysylltiedig ag amrywiol feysydd, gan gynnwys yn lleol ac ar lefel y DU. |
| 2 | Peilota 'Llwybr at Waith' newydd i bobl 16-17 oed; nid rhaglen newydd yw hon ond gwaith i greu un llwybr hyblyg a chydlynol i bobl ifanc. Byddai'r llwybr hon yn cyfuno ymagweddau presennol, gan eu gwella lle bo angen, i greu rhaglen a fydd yn cynnig taith hyblyg ond integredig a pharhaus tuag at gyflogaeth barhaus neu ganlyniad cadarnhaol arall. Caiff llwyddiannau pobl ifanc eu dathlu ar adegau allweddol ar hyd y llwybr, gan gynnwys llwyddiannau sgiliau meddal.<br><br>(CYFLOGADWYEDD a CHYFLEOEDD I GAEL CYFLOGAETH) | Mae'r cysyniad Llwybr at Waith yn cael ei gyflawni drwy alinio rhaglenni Llywodraeth Cymru i bobl ifanc yn well. Mae 'llwybr' mwy cydlynol wedi'i sefydlu drwy gydgysylltu Prentisiaethau/Camau at Gyflogaeth - Twf Swyddi Cymru - ac mae ein prentisiaethau yn cynnig taith hyblyg ond integredig i bobl ifanc tuag at gyflogaeth gynaliadwy. Mae data cynnar yn rhoi gwybodaeth addawol inni ar nifer y bobl ifanc sy'n gadael Twf Swyddi Cymru a mynd ymlaen i gyfle am brentisiaeth.<br><br>Caiff y cysyniad Llwybr i Waith ei ddatblygu ymhellach drwy weithio gydag awdurdodau lleol fel rhan o'r gwaith o dreialu'r Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Pobl Ifanc. Ble y mae'n bosibl rydym yn defnyddio Twf Swyddi Cymru i helpu ein partneriaid yn eu hymdrechion i fynd i'r afael â diweithdra ymhlith pobl ifanc ar lefel leol, ac rydym yn bwriadu ehangu mwy ar y math hwn o weithio strategol ar draws y sector cyhoeddus dros y ddwy flynedd nesaf fel rhan o'r broses o weithredu'r Fframwaith. |

[1] Rydym wedi nodi ble yr ydym yn credu y dylid rhoi pob cam o dan y Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuenctid newydd.

| Rhif Cam | Gweithredu ar gyfer Ymgysylltu a Chyflogaeth Ieuenctid | Cynnydd |
|---|---|---|
| 3 | Cynnal adolygiad o gyllid a darpariaeth sydd ar gael ar hyn o bryd i bobl ifanc sydd yn NEET ledled Cymru, gan gynnwys rhaglenni Cronfa Gymdeithasol Ewrop, er mwyn sicrhau sail o wybodaeth ar gyfer cyflwyno proses ddiwygiedig ar gyfer cymeradwyo prosiectau ymgysylltu a chyflogaeth pobl ifanc gan sicrhau bod adnoddau a gweithgareddau yn diwallu anghenion ac nad ydynt yn dyblygu a'u bod yn cynnig y gwasanaeth gorau posibl i'r person ifanc.<br><br>(DARPARIAETH) | Mae cyfres o werthusiadau ac adolygiadau annibynnol yn cael eu cynnal ar draws y sbectrwm o raglenni a phrosiectau a ariennir yn gyhoeddus sy'n cefnogi pobl ifanc y mae'n bosib iddynt ymddieithrio.<br><br>Bydd y gwerthusiadau a'r adolygiadau hyn yn adrodd erbyn haf 2013 a byddant yn sylfaen wybodaeth ar gyfer y gwaith dilynol o gynllunio, comisiynu, cyllido a chyflawni gwasanaethau a darpariaeth.<br><br>Caiff yr adolygiad o'r ddarpariaeth ei gynnal i ddechrau mewn pum cam:<br><br>1. Mae gwerthusiad annibynnol a gynhelir gan Brifysgol Caeredin o gyflawni, cynllunio a chomisiynu darpariaeth addysg i blant a phobl ifanc sy'n derbyn eu haddysg y tu allan i amgylchedd ysgol wedi'i gwblhau a chafodd ei gyhoeddi ym mis Mehefin 2013. Mae swyddogion yn ystyried y canfyddiadau yn yr adroddiad er mwyn datblygu polisïau yn y maes hwn yn y dyfodol.<br><br>2. Mae prosiectau 'Cyrraedd y Nod' Cronfa Gymdeithasol Ewrop (sy'n cefnogi pobl nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant a phobl sy'n agored i risg o fod felly) yn cael eu gwerthuso'n annibynnol; disgwylir adroddiadau terfynol ym mis Medi 2013. Mae'r gwerthusiad yn ystyried effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd y ddarpariaeth.<br><br>3. Roedd y treialon, a arweiniwyd gan Awdurdodau Lleol, ar y Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Pobl Ifanc yn nodi arfer newydd ym maes gwasanaethau broceriaeth a darpariaeth sydd â'r nod o wella sgiliau ymgysylltu a chyflogadwyedd.<br><br>4. Mae adolygiad o bob prosiect a gefnogwyd gan Grant Refeniw Gwaith Ieuenctid, sydd werth £2.5 miliwn, wedi'i gwblhau. Mae hyn wedi rhoi darlun o raddfa a chwmpas gwaith a wneir yn 2012-13. Yng nghyd-destun y Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Pobl Ifanc newydd, mae'r archwiliad hwn o ddarpariaeth yn cael ei ddefnyddio fel sylfaen wybodaeth ar gyfer datblygu canllawiau i gyd-fynd â'r broses gwneud cais ar gyfer 2013-14.<br><br>5. Mae darpariaeth Porth Ieuenctid yn cael ei adolygu yng nghyd-destun cylch gwaith newydd Gyrfa Cymru a chaffael rhaglenni dysgu seiliedig ar waith yn y dyfodol. Bydd y Porth Ieuenctid yn cael ei ddisodli gan 'raglen gymorth uwch' ar gyfer pobl ifanc ddi-waith rhwng 16-24 mlwydd oed fydd yn canolbwyntio ar fynd i'r afael â'r rhwystrau i ymgysylltu a datblygu. Bydd y cymorth personol yn cael ei lywio gan asesiad o'r angen, yn defnyddio dewislen o ddarpariaeth a bydd yn ystyried y gwasanaethau sy'n cael eu darparu gan y darparwyr Dysgu Seiliedig ar Waith i osgoi dyblygu. |

| Rhif Cam | Gweithredu ar gyfer Ymgysylltu a Chyflogaeth Ieuenctid | Cynnydd |
|---|---|---|
| 4 | Ceisio ehangu'r cyfleoedd sy'n bodoli i bobl ifanc gael mynediad i raglenni prentisiaethau, gan gynnwys datblygu'r Fenter Llwybrau i Brentisiaethau a'r Rhaglen Recriwtiaid Ifanc fel rhan o'r cynnig o brentisiaeth.<br><br>(DARPARIAETH) | Mae Llywodraeth Cymru yn gweithio'n barhaus i annog cyflogwyr i recriwtio Prentisiaid newydd drwy ei phrif Raglen Prentisiaethau, Rhaglen Llwybrau at Brentisiaethau, Rhaglen Recriwtiaid Newydd a thrwy ei Gwasanaeth Paru Prentisiaethau. O ganlyniad, mae £40 miliwn yn ychwanegol yn cael ei fuddsoddi mewn Prentisiaethau dros y ddwy flynedd ariannol nesaf. Bydd y cyllid ychwanegol sy'n cael ei ddyrannu drwy'r gyllideb yn galluogi Cymru i adeiladu ar ei sylfaen Prentisiaethau presennol er mwyn cynyddu'r lefel sgiliau ar draws y gweithlu yng Nghymru.<br><br>Mae prentisiaethau'n rhaglen flaenllaw i Lywodraeth Cymru o hyd. Maent wedi profi eu heffeithiolrwydd yn y farchnad ymhlith cyflogwyr a phobl ifanc. Er ein bod yn cynnig rhaglen Brentisiaethau ar gyfer pob oedran yng Nghymru, rydym yn parhau i ganolbwyntio ar y cymorth i bobl ifanc 16-24 mlwydd oed. Rydym wedi parhau i wella ein cyfraddau llwyddo mewn prentisiaethau yn ystod 2011/2012, gydag 85% o bobl yn llwyddo yn eu fframwaith prentisiaeth.<br><br>Rydym yn parhau i weithredu rhaglenni sy'n sicrhau y gall bobl ifanc sy'n gadael ysgol neu goleg gael mynediad i hyfforddiant prentisiaeth o safon drwy'r rhaglen Brentisiaeth a'r rhaglenni Recriwtiaid Newydd. Mae'r mesurau hyn yn cefnogi pobl ifanc ac yn sicrhau bod gennym bobl â'r sgiliau angenrheidiol yn barod wrth i'r economi wella er mwyn sicrhau ei bod yn gwella cyn gynted â phosib.<br><br>Yn ystod 2013/2014, rydym yn bwriadu darparu cymorth i hyd at 2,000 o bobl ifanc 16-24 oed drwy ein Rhaglen Recriwtiaid Ifanc. Mae'n darparu cymorth ariannol i gyflogwyr cymwys sy'n gallu cynnig rhaglen brentisiaeth o safon uchel i brentisiaid ifanc ychwanegol. Mae'r Rhaglen Recriwtiaid Ifanc ar gael i gyflogwyr na fyddai, mewn amgylchiadau arferol, yn gallu recriwtio a chefnogi prentis. Caiff darpariaeth y brentisiaeth ei hariannu'n llawn gan Lywodraeth Cymru, gyda chymhorthdal cyflog i'r cyflogwr o £100 yr wythnos am bob prentis ar gyfer y 26 wythnos cyntaf ac yna £50 am y 26 wythnos sy'n weddill ar gyfer dysgwyr cymwys sy'n gweithio am dros 37 awr yr wythnos. Mae'r rhaglen yn rhedeg am 52 wythnos. Mae ffigurau presennol yn dangos ein bod wedi cynorthwyo gyda 1,005 o leoedd.<br><br>Mae'r Gwasanaeth Paru Prentisiaethau, ein gwasanaeth recriwtio ar-lein ar gyfer paru pobl ifanc a chyflogwyr yn parhau i ddangos cynnydd cyson pob mis o ran nifer y swyddi gwag sy'n cael eu hysbysebu.<br><br>Bydd cynnwys y Prentisiaethau Uwch yn ddiweddar, am y tro cyntaf, sy'n cwmpasu Lefelau 4,5 a 6, yn rhoi llwybr gyrfa cyflawn i bobl ifanc i statws broffesiynol gan eu bod yn cynnig yr opsiwn i astudio cymwysterau Addysg Uwch perthnasol fel rhan o'r fframwaith. Rhagwelir y bydd y Prentisiaethau Uwch, dros amser, yn cynnig y dewis arall credadwy hwnnw o ran galwedigaeth, ac yn ysgogiad i newid y farn bresennol o ran gwerth y Prentisiaethau. |

| Rhif Cam | Gweithredu ar gyfer Ymgysylltu a Chyflogaeth Ieuenctid | Cynnydd |
|---|---|---|
| 5 | Cyflwyno'r defnydd o gymalau cymdeithasol yng nghontractau Llywodraeth Cymru a'r sector cyhoeddus ehangach i greu cyfleoedd cyflogaeth, profiad gwaith a hyfforddiant i bobl ifanc le bo hynny'n ymarferol, gan gynnwys cymorth i'r rheiny sy'n derbyn grantiau a chymorth gan y llywodraeth.<br><br>(CYFLOGADWYEDD a CHYFLEOEDD I GAEL CYFLOGAETH) | Mae'r gwaith yn parhau i annog contractwyr Llywodraeth Cymru i fuddsoddi mewn hyfforddiant, recriwtio prentisiaid, a symud i fyny'r 'gadwyn werth', gan ddarparu nwyddau a gwasanaethau o werth uwch.<br><br>Cafodd gwaith pellach ei annog drwy dreialu gweithgaredd gydag awdurdodau lleol fel rhan o'r Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Pobl Ifanc.<br><br>Hyd yn hyn, mae gwerth dros £4 biliwn o gontractau a fframweithiau sector cyhoeddus yn mabwysiadu dull Manteision Cymunedol o weithio. Mae hyn yn cynnwys 11 contract Llywodraeth Cymru, gwerth cyfanswm o £1 biliwn. Mae contractau Llywodraeth Cymru'n amrywio o gynlluniau'r ffordd fawr i gontract rheoli cyfleusterau'r sefydliad, gyda chyfleoedd cyflogaeth, hyfforddiant a phrofiad gwaith. |
| 6 | Cynyddu cyfleoedd am brofiad gwaith i'r rheiny rhwng 14 a 24 oed ledled Cymru, gan gynnwys ehangu cyfleoedd o fewn Llywodraeth Cymru, y sector cyhoeddus ehangach, y sector preifat a'r sector gwirfoddol.<br><br>(CYFLOGADWYEDD a CHYFLEOEDD I GAEL CYFLOGAETH) | Mae Gyrfa Cymru yn parhau i hwyluso profiad gwaith i ddisgyblion ysgol (yng Nghyfnod Allweddol 4 a'r 6ed Dosbarth). O fis Medi 2012 ymlaen, caiff hyn ei gyflawni drwy'r Gronfa Ddata Profiad Gwaith Genedlaethol, sydd wedi'i gyflwyno ledled Cymru. Mae staff ysgolion wedi cael hyfforddiant ar gyfer ei ddefnyddio. Mae'r Gronfa Ddata Profiad Gwaith Genedlaethol, sy'n rhan o GyrfaCymru.com, yn galluogi pob ysgol i weld pob cyfle am brofiad gwaith sydd ar gael gan gyflogwyr. Mae hyn yn creu mwy o gyfleoedd ledled Cymru.<br><br>Mae ffigurau ar gyfer 2011-2012 yn dangos bod Gyrfa Cymru wedi darparu tua 40,000 o leoliadau profiad gwaith, 7000 o wiriadau iechyd a diogelwch ac wedi cefnogi bron i 17,000 o gyflogwyr sydd ar hyn o bryd yn cynnal gweithgareddau Cysylltiadau Busnes Addysg (EBL), gan gynnwys lleoliadau profiad gwaith. Mae newid mawr o ran y cyflogwyr sy'n fodlon ymwneud â gweithgareddau EBL, gan gynnwys lleoliadau profiad gwaith, o ganlyniad i ffactorau o fewn busnesau, megis newidiadau staff, pwysau gweithredol a diffyg adnoddau. Yn 2011-12, recriwtiodd Gyrfa Cymru 3,511 o gyflogwyr newydd i gymryd rhan mewn gweithgareddau EBL a phrofiad gwaith yn ogystal â chefnogi'r 16,815 o gyflogwyr oedd eisoes yn rhan o'r fenter.<br><br>Mae'r Sgwrs Go Iawn yn ddull o weithredu gan Lywodraeth Cymru i ddod ag arweinwyr busnes, pobl ifanc a rhanddeiliaid eraill at ei gilydd i drafod materion penodol. Y nod yw cael gwell dealltwriaeth o safbwynt a barn eraill ar amrywiol faterion sy'n ymwneud â pholisi. Mae digwyddiadau y Sgwrs Go Iawn yn mynd i'r afael â'r rhwystrau gwirioneddol a'r rhwystrau ymddangosiadol i gyflogaeth yn yr hinsawdd bresennol ac mae'n rhoi cyfle i edrych ar atebion sy'n galluogi pobl ifanc i gael mynediad i waith yn ogystal â chael cyflogwyr i recriwtio'n llwyddiannus.<br><br>Cynhaliwyd y digwyddiad diwethaf ar 5 Mehefin 2013. Roedd y digwyddiad hwn yn fforwm i drafod sut y gall busnesau ymgysylltu â phobl ifanc er mwyn cael dylanwad bositif ar ddewisiadau gyrfaol a datblygu'r doniau a'r sgiliau sydd eu hangen gan fusnesau yn y dyfodol. Cynhelir y digwyddiad nesaf ar 26 Medi 2013 yng Ngorllewin Cymru. |

| Rhif Cam | Gweithredu ar gyfer Ymgysylltu a Chyflogaeth Ieuenctid | Cynnydd |
|---|---|---|
| 7 | Sefydlu tîm newydd gyda chyfrifoldeb cyffredinol am ymgysylltu a chyflogaeth pobl ifanc.<br><br>(ATEBOLRWYDD) | Sefydlwyd tîm i gydlynu gweithgareddau yn 2010. Yn 2012, crëwyd Is-adran lawn gyda chyfrifoldeb cyffredinol am hybu ymgysylltiad a datblygiad pobl ifanc. |
| 8 | Ceisio gosod yr 'ymagwedd' gyffredinol tuag at ymgysylltu a chyflogaeth pobl ifanc yng Nghymru. Bydd hyn yn cynnwys cyfleoedd i bobl ifanc sy'n agored i niwed a'r rhai sydd ag anghenion dysgu ychwanegol. Bydd yn sail o wybodaeth ar gyfer trefniadau arwain awdurdodau lleol drwy adeiladu ar fentrau cadarnhaol o bob sector (gan gynnwys y sector preifat, gwirfoddol a chyhoeddus) a dadansoddi ardaloedd â phroblem o ran pobl nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant gyda'r nod o rannu arfer da.<br><br>(ATEBOLRWYDD) | Mae dull cyffredinol newydd wedi ei dreialu gydag wyth awdurdod lleol a phartneriaid eraill.<br><br>Mae'r dull, a ddisgrifir fel fframwaith, yn cynnwys chwe elfen:<br>• Nodi pobl ifanc sydd fwyaf tebygol o **ymddieithrio**<br>• Gwell **broceriaeth** a chydgysylltu o ran cymorth<br>• Prosesau **olrhain** a phontio cryfach drwy'r system i bobl ifanc<br>• Sicrhau bod y **ddarpariaeth** yn diwallu anghenion pobl ifanc<br>• Atgyfnerthu sgiliau **cyflogadwyedd** a **chyfleoedd i gael cyflogaeth**<br>• Gwell **atebolrwydd** i sicrhau gwell deilliannau i bobl ifanc<br><br>Caiff canlyniadau'r treialon eu defnyddio fel sylfaen wybodaeth ar gyfer dulliau o weithredu yn y dyfodol i'r sefydliadau sy'n gweithio gyda phobl ifanc i wella'u hymgysylltiad ag addysg, hyfforddiant a chyflogaeth. |
| 9 | Sicrhau bod Partneriaethau Plant a Phobl Ifanc yn gweithio'n effeithiol a'u bod i gyd yn cyrraedd safon y bartneriaeth orau.<br><br>(ATEBOLRWYDD) | Mae cyd-destun cynllunio ar y cyd wedi newid wrth i gynlluniau Plant, Iechyd, Diogelwch Cymunedol, strategaethau cymunedol gael eu hintegreiddio o fewn cynlluniau strategol sengl, dan arweiniad y Bwrdd Gwasanaethau Lleol ym mhob ardal.<br><br>Rydym wedi edrych ar ystod o wahanol ddulliau o arwain a llywodraethu'n lleol drwy dreialu'r Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Pobl Ifanc.<br><br>Gan gydnabod swyddogaeth hollbwysig y Byrddau Gwasanaeth Lleol, rydym yn gofyn i awdurdodau lleol ddatblygu a rhannu â Llywodraeth Cymru gynllun cyffredinol ar gyfer Ymgysylltu a Datblygu Pobl Ifanc erbyn mis Mawrth 2014. Nid yw'r cynlluniau hyn yn statudol a bydd angen i awdurdodau lleol benderfynu ar y ffordd orau o'u cael i gyd-fynd â'u cynlluniau eraill, gan gynnwys y rhai y mae angen iddynt eu cynhyrchu'n statudol. |
| 10 | Ystyried rôl y Gwasanaeth Ieuenctid yng Nghymru a diweddaru'r canllawiau ar ei rôl o gyflwyno'r agenda i'r rhai nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant.<br>(BROCERIAETH) | Mae Cynllun Gweithredu y Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Pobl Ifanc sydd ar ddod yn disgrifio'r swyddogaeth y gall y Gwasanaeth Ieuenctid ei chwarae drwy gynorthwyo i ymgysylltu a datblygu pobl ifanc. Bydd y Fframwaith yn creu cyd-destun mwy cydlynol fel y gall partneriaid allweddol (fel y Gwasanaeth Ieuenctid a Gyrfa Cymru) weithio ar y cyd i gynorthwyo grwpiau gwahanol o bobl ifanc i ddatblygu yn wirioneddol. |

| Rhif Cam | Gweithredu ar gyfer Ymgysylltu a Chyflogaeth Ieuenctid | Cynnydd |
|---|---|---|
| | | Penderfynodd y Gweinidog aildrefnu'r ymgynghoriad ar y Strategaeth newydd ar gyfer y Gwasanaeth Ieuenctid Cenedlaethol yn 2013, hyd nes y caiff y gwaith ar y Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuenctid ei gwblhau, a gwaith pellach gyda phartneriaid allanol gan gynnwys Prif Swyddogion Ieuenctid, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC) a Chyngor Cymreig y Gwasanaethau Ieuenctid Gwirfoddol .<br><br>Mae swyddogaeth benodol y Gwasanaeth Ieuenctid wrth gynorthwyo gyda chyflawni'r Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuenctid wedi bod yn amlwg yn yr ymgynghoriad, *'Gweledigaeth Newydd ar gyfer Strategaeth Gwaith Ieuenctid Cenedlaethol ar gyfer Cymru'*, (dechreuodd yr ymgynghoriad ar 18 Mehefin 2013 a daeth i ben ar 16 Medi 2013). Hyd yma bu cefnogaeth gref o blaid y cynnig hwn mewn ymateb i'r ymarfer ymgynghori. |
| 11 | Datblygu dull integredig o helpu teuluoedd y mae eu plant mewn perygl o beidio â bod mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant.<br>(BROCERIAETH) | Mae rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf yn cynnig dull integredig holistaidd o helpu teuluoedd, rhai ohonynt â phlant a phobl ifanc sydd mewn perygl o ymddieithrio o bosib. Mae'r rhaglen yn defnyddio dull o weithio sy'n rhwystro ac yn ymgysylltu yn gynnar i sicrhau ymyrraeth briodol. Caiff hyn ei weithredu'n bennaf drwy'r Tîm o Amgylch y Teulu (TAF) a Fframwaith Asesu'r Teulu ar y Cyd.<br><br>Cafodd Cynlluniau Gweithredu lleol diwygiedig eu cyflwyno i Lywodraeth Cymru ym mis Tachwedd 2012, ac maent yn cael eu rhoi ar waith ar hyn o bryd gan awdurdodau lleol a'u partneriaid. Caiff y rhaglen ei gwerthuso i sicrhau bod y dull TAF o weithio wedi'i sefydlu a bod arferion effeithiol yn cael eu rhannu ledled Cymru. Caiff y dull hwn o weithio ei fonitro hefyd drwy reoli cyfrif y rhaglen. |
| 12 | Drwy ddatblygiad proffesiynol parhaus athrawon, sicrhau ymwybyddiaeth o ddelio'n effeithiol â disgyblion sydd mewn perygl o beidio â bod mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant.<br><br>(ADNABOD YN GYNNAR) | O fis Medi 2011 cyflwynodd Llywodraeth Cymru gyfres newydd o safonau proffesiynol ar gyfer arweinwyr ac athrawon ysgol a chynorthwywyr dysgu lefel uwch. Mae'r safonau yn cryfhau'r angen i ymarferwyr ar bob lefel fynd i'r afael ag effaith tlodi ac anfantais ar gyrhaeddiad ac o godi safonau ym maes llythrennedd a rhifedd. Bydd disgwyl i ymarferwyr ddefnyddio'r safonau i lywio eu gweithgareddau datblygu proffesiynol.<br><br>O fis Rhagfyr 2012 bydd y safonau hyn hefyd yn sylfaen i'r trefniadau rheoli perfformiad newydd ar gyfer pob athro a phennaeth. O 2012 bydd yn bosib i bob Athro Newydd Gymhwyso ddilyn y rhaglen Meistr newydd fydd yn canolbwyntio ar yr un blaenoriaethau allweddol.<br><br>Mae Llywodraeth Cymru yn datblygu gwefan 'siop un stop' fydd yn rhoi ystod o strategaethau dysgu ac adnoddau o safon uchel sy'n hawdd eu defnyddio ac sydd wedi dangos eu bod yn cael effaith bositif ar godi safonau pob dysgwr. Ein nod yw cyflwyno gwybodaeth ar arfer effeithiol i bob ymarferydd, yn seiliedig ar y gwaith ymchwil cenedlaethol a rhyngwladol diweddaraf, i'w helpu i ddatblygu a gwella eu harferion. Bydd y wefan yn cynnwys strategaethau a dulliau o ddelio'n effeithiol â disgyblion sydd mewn perygl o beidio â bod mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant. Daeth y deunyddiau hyn ar-lein ym mis Medi 2012 ymlaen. |

| Rhif Cam | Gweithredu ar gyfer Ymgysylltu a Chyflogaeth Ieuenctid | Cynnydd |
|---|---|---|
| 13 | Cryfhau'r cynllunio a'r ddarpariaeth ar gyfer pobl ifanc sy'n trosglwyddo o ysgol gynradd i ysgol uwchradd, ac o addysg i'r byd gwaith.<br><br>(TRACIO) | Mae'n ofynnol i bob ysgol uwchradd weithio gyda'u ysgolion cynradd sy'n eu bwydo i sefydlu cynlluniau pontio.<br><br>Mae'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol ar gyfer plant 5-14 mlwydd oed a gafodd ei ddatblygu i helpu pob athro i gynnwys llythrennedd a rhifedd wrth addysgu'r cwricwlwm, wedi bod ar gael i ysgolion ei ddefnyddio ers mis Ionawr 2013. Mae'r canllawiau ar weithredu'r Fframwaith yng nghwricwlwm yr ysgol yn ogystal â gweithdai i ysgolion i hyfforddi staff hefyd ar gael. Mae'r Fframwaith yn ofyniad statudol o fewn y cwricwlwm i ysgolion ers mis Medi 2013. Rydym yn buddsoddi mewn Rhaglen Gymorth Genedlaethol a fydd yn rhoi cymorth ymarferol, wedi'i deilwra i anghenion ysgolion unigol, i sicrhau y caiff y Fframwaith ei roi ar waith yn llwyddiannus. Mae arbenigwyr wedi'u penodi i helpu ysgolion weithredu'r Fframwaith ym mhob rhanbarth yng Nghymru ac mae'r Rhaglen Gymorth Genedlaethol eisoes wedi dechrau gweithio gydag oddeutu 330 o ysgolion. Bydd y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd a'r Rhaglen Gymorth Genedlaethol yn adeiladu ar y Rhaglen Llythrennedd a'r Rhaglen Rhifedd Genedlaethol i helpu gyda'r pontio ym maes llythrennedd a rhifedd o'r ysgol Gynradd i'r ysgol Uwchradd.<br><br>Fe wyddom bod sgiliau gwell ym maes llythrennedd a rhifedd yn hanfodol i sicrhau datblygiad llwyddiannus drwy'r cwricwlwm uwchradd, fydd, gyda'r flaenoriaeth sy'n cael ei roi i ddal i fyny yng nghanllaw y Grant Gwella Ysgolion, yn sicrhau bod y ddarpariaeth dal i fyny sydd ar gael i ddysgwyr sydd ar ei hôl hi ym maes llythrennedd a rhifedd yn ddigonol ac o safon uchel. Datblygwyd mesurau hefyd i sicrhau bod y disgyblion hynny â gallu uwch hefyd yn cael eu herio'n ddigonol. Sefydlwyd y prosiect Mynd i'r Afael â Thangyflawniad Bechgyn i ganolbwyntio ar leihau y bwlch yn y rhywiau drwy wella sgiliau llythrennedd bechgyn, a phecyn hyfforddi a chynorthwyo cynhwysfawr, a gafodd ei dreialu mewn 20 o ysgolion rhwng Medi 2011 a Gorffennaf 2012, ac a gafodd ei roi ar waith drwy Gymru gyfan wedi hynny. Mae'r treialu i ddigwydd tan fis Awst 2014 ar hyn o bryd. Cyflwynwyd adroddiad gwerthuso dros dro ar y prosiect ym mis Gorffennaf 2013 ac mae'n cael ei ystyried ar hyn o bryd. Mae'r adroddiad ar ddatblygiad ac effaith y prosiect yn bositif ar y cyfan ac mae'n tynnu sylw at y ffaith bod staff yr ysgolion yn nodi bod lefel uchel o foddhad gyda'r cyfleoedd hyfforddi a datblygu proffesiynol sy'n cael eu cynnig.<br><br>Rydym wedi lansio rhaglen Cysylltiadau â Chyflogwyr ym maes Rhifedd i ddarparu gwasanaeth broceriaeth rhwng busnesau ac ysgolion i helpu athrawon a dysgwyr i gydnabod pwysigrwydd a pherthnasedd rhifedd o fewn y byd gwaith, ac i helpu i ddarparu gweithgareddau fydd yn arwain at agweddau gwell at rifedd a sgiliau rhifedd gwell. O dan y rhaglen, bydd bechgyn a merched yn cael eu cefnogi ac yn elwa o fodelau rôl gadarnhaol o'r ddau ryw. Bydd gweithgaredd yn dechrau o fis Medi 2013.<br><br>O ran pontio cyn ac ar ôl 16, fe wyddom o'r data a gafwyd gan Gyrfa Cymru Ar-lein fod pob ysgol a choleg wedi sicrhau bod pob person ifanc ar Gyfnod Allweddol 4 ac ôl-16 wedi cael cynnig isafswm o 30 o ddewisiadau. Mae'r hyn sy'n cael ei gynnig gan y cwricwlwm lleol yn ystyried anghenion y farchnad waith leol a chenedlaethol. Golyga hyn bod pobl ifanc yn cael y cyfle i ddilyn cyrsiau fydd yn arwain at gyflogaeth neu addysg barhaus.<br><br>Cynhaliodd y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc ymholiad i roi'r Mesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) 2009 ar waith yn ystod hydref 2011. Roedd adroddiad y Pwyllgor, a gyhoeddwyd ym mis Mai 2012, yn argymell bod y Gweinidog Addysg a Sgiliau yn adolygu'r penderfyniad i osod 30 o gyrsiau (gan gynnwys pum cwrs galwedigaethol) fel yr isafswm o gyrsiau oedd eu hangen i lunio Cwricwlwm Lleol ar Gyfnod Allweddol 4. Mae'r Gweinidog wedi cytuno |

| Rhif Cam | Gweithredu ar gyfer Ymgysylltu a Chyflogaeth Ieuenctid | Cynnydd |
|---|---|---|
| | | i'r argymhelliad hwn ac mae grŵp gorchwyl a gorffen wedi'i sefydlu i adolygu'r 30 dewis a bydd yn adrodd yn ôl yn ystod Medi 2013. |
| 14 | Datblygu sgiliau sylfaenol pobl ifanc ymhellach a sicrhau bod y ddarpariaeth briodol o sgiliau sylfaenol ar gael i oedolion.<br><br>(DARPARIAETH) | Mae'r Rhaglen Llythrennedd a'r Rhaglen Rhifedd Genedlaethol, a gyhoeddwyd yn 2012, yn anelu at wella lefelau llythrennedd a rhifedd yn sylweddol o fewn ysgolion dros y bum mlynedd nesaf. Mae camau gweithredu'r rhaglenni'n cynnwys rhoi'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd ar waith yn statudol o fis Medi 2013. Mae profion cenedlaethol blynyddol pwrpasol ym maes darllen a rhifedd i bob dysgwr o flwyddyn 2 i 9 wedi'u cyflwyno i helpu i fonitro ac asesu datblygiad y dysgwr. Cynhaliwyd y profion am y tro cyntaf ym mis Mai 2013. Rydym hefyd wedi cyhoeddi canllawiau ar raglenni dal i fyny ym maes llythrennedd a rhifedd sydd ar gael yng Nghymru, ac sydd wedi bod yn effeithiol, yn ôl tystiolaeth ymchwil ddibynadwy. Bydd y flaenoriaeth sy'n cael ei roi i ddal i fyny yn y canllaw Is-grŵp Gwariant yn sicrhau bod swmp a safon y ddarpariaeth dal i fyny sydd ar gael i ddysgwyr sydd ar ei hôl hi ym maes llythrennedd a rhifedd yn codi.<br><br>Rydym ar hyn o bryd yn datblygu nifer o ymyraethau sy'n flaenoriaeth i helpu pobl ifanc ac oedolion i wella eu sgiliau llythrennedd a rhifedd. Mae'r rhain yn cynnwys:<br><br>• Bydd gwaith ymchwil i edrych ar nifer o agweddau ar ddarparu sgiliau hanfodol ôl-16 yn adrodd yn ôl yn 2013 - 2014. Bydd yr argymhellion o'r gwaith ymchwil hwn yn llywio cyfeiriad polisi yn y dyfodol.<br>• Mae ymyriadau ym maes sgiliau sylfaenol allweddol i wella'r asesiadau cychwynnol, a strwythur a chynnwys sgiliau sylfaenol a chymwysterau cyflogadwyedd, i'w gweithredu yn 2013 - 14. Bydd pecyn asesu cyffredin sydd i'w ddefnyddio gan bob darparwr sgiliau hanfodol/sylfaenol ôl-16 yn cael ei gaffael a'i beilota erbyn mis Medi 2014.<br>• Ystyried datblygu ymhellach a darparu polisi sgiliau hanfodol ar gyfer pobl ifanc ac oedolion drwy'r Polisi Sgiliau ehangach i sicrhau y caiff ei flaenoriaethu, ei gynnwys a'i ariannu'n briodol i roi'r sylfaen sgiliau bwysig i bobl ifanc ac oedolion sydd ei hangen i gael y sgiliau a'r cymwysterau lefel uwch ac i fod yn rhan o'r byd gwaith fel y mae heddiw. |
| 15 | Treialu estyniad o'r ddarpariaeth anogwyr dysgu 14-19, gyda phwyslais penodol ar gefnogi pobl ifanc wrth iddynt drosglwyddo o ysgol gynradd i ysgol uwchradd, gyda golwg ar lywio arferion gorau.<br><br>(BROCERIAETH) | Mae pum ysgol ledled Cymru wedi cymryd rhan yn y rhaglen beilot 11-14 a oedd yn canolbwyntio ar y pontio o'r Ysgol Gynradd i'r Ysgol Uwchradd. Mae gwerthusiad wedi'i wneud ers hynny ac mae rhywfaint o dystiolaeth bod yr ymyrraeth hwn o ran pontio wedi bod o fudd mewn grwpiau bychan a bod manteision i ehangu swyddogaethau'r Hyfforddwr Dysgu i bobl ifanc 11-13 mlwydd oed. Rydym yn ystyried ar hyn o bryd a ddylai'r cymorth hwn gyda'r pontio rhwng ysgolion cynradd ac uwchradd gael ei roi ar waith yn ehangach. |
| 16 | Cynnal gweithgareddau a digwyddiadau sydd wedi'u targedu er mwyn ysgogi diddordeb a chyfranogiad mewn entrepreneuriaeth, yn enwedig y rheini sy'n ddi-waith a/neu'n economaidd anweithgar.<br><br>(CYFLOGADWYEDD A CHYFLEOEDD I GAEL CYFLOGAETH) | Mae Llywodraeth Cymru wedi creu Bwrseriaeth Twf Swyddi Cymru sy'n rhoi £6000 i bobl ifanc rhwng 16-24 mlwydd oed sy'n bwriadu dechrau eu busnes eu hunain. Roedd yn darparu ar y cyd ar draws dwy adran gan gymryd mantais ar y ffynonellau presennol o gymorth i ddechrau busnes. Bu i haen hunangyflogaeth y rhaglen wneud yn well na'i tharged ar gyfer blwyddyn un. O fis Awst 2013, mae 114 o geisiadau bwrsariaeth wedi'u cymeradwyo o dan y prosiect.<br><br>Mae entrepreneuriaeth hefyd yn cael ei hyrwyddo o fewn y rhaglen Hyfforddeion newydd, yn enwedig drwy'r maes Pont at Waith. Rhagor o drafodaethau yn gysylltiedig â hyrwyddo entrepreneuriaeth i'w cynnal gyda Ffederasiwn Hyfforddiant Cenedlaethol Cymru. |

| Rhif Cam | Gweithredu ar gyfer Ymgysylltu a Chyflogaeth Ieuenctid | Cynnydd |
| --- | --- | --- |
| | | Mae'r gwaith gyda'r Adran Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth i gyflawni yn erbyn y cynllun gweithredu Strategaeth Entrepreneuriaeth Ieuenctid yn parhau. |
| 17 | Creu manyleb gynaliadwy ar gyfer y Rhaglen Cyfrifon Segur yng Nghymru (i'w lansio yn 2011) i gefnogi pobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant.<br><br>(CYFLOGADWYEDD A CHYFLEOEDD I GAEL CYFLOGAETH) | Ym mis Tachwedd 2007, cyflwynodd llywodraeth y DU Fil i'r Senedd, yn amlinellu'r cynigion ar gynllun newydd i alluogi'r arian sy'n cael ei gadw mewn cyfrifon banc a chymdeithasau adeiladu 'segur' i gael ei ail-fuddsoddi yn y gymuned leol. Mae Cabinet Llywodraeth Cymru wedi cymeradwyo dau flaenoriaeth o ran gwario ar gyfer y Cynllun Cyfrifon Segur yng Nghymru:<br><br>(i) Cynorthwyo plant a phobl ifanc i gyrraedd eu potensial llawn gan weithio drwy'r trydydd sector i hybu cynhwysiant cymdeithasol; a<br>(ii) Mynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd a hyrwyddo datblygu cynaliadwy ehangach drwy weithgarwch sy'n canolbwyntio ar y gymuned.<br><br>Y prosiect blaenoriaeth cyntaf (i) yw'r rhaglen Ar y Blaen, rhaglen ddwy flynedd gwerth £3.4 miliwn. Bydd y rhaglen yn cynnig lleoliad gwaith cyflogedig gyda chymorth i bobl ifanc rhwng 16-18 mlwydd oed am isafswm o 25 awr yr wythnos am gyfnod o chwe mis gan dalu'r isafswm cyflog, a thargedu pobl ifanc sydd wedi troseddu a phobl ifanc sy'n gadael gofal sydd heb addysg, gwaith na hyfforddiant.<br><br>Bydd y rhaglen Ar y Blaen yn rhoi lleoliad gwaith â chymorth i bobl ifanc i'w helpu i gael sgiliau cyflogadwyedd allweddol a phrofiad gwaith gwerthfawr sy'n hanfodol ar gyfer cyfleoedd i recriwtio gyda chyflogwyr. Bydd y cyfle i gael lleoliad gwaith yn gwella eu sgiliau cyflogadwyedd a'u cyfle o gael gwaith cynaliadwy yn y dyfodol neu o fynd ymlaen i ddysgu pellach o ganlyniad uniongyrchol i'r profiad hwnnw. Enillodd Llamau Ltd y tendr i ddarparu'r prosiect hwn ym mis Mehefin 2013. Bydd y gwaith cyflenwi'n dechrau ym mis Medi 2013.<br><br>Bydd Llywodraeth Cymru yn dechrau gwaith gyda'r Loteri Fawr cyn bo hir i gynllunio'r prosiect blaenoriaeth (i) nesaf. Y bwriad yw defnyddio'r cyllid i lenwi'r bylchau yn y ddarpariaeth drwy fapio awdurdodau lleol. |
| 18 | Cryfhau'r drefn o reoli data, gwybodaeth ystadegol, a rhannu gwybodaeth am bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant rhwng sefydliadau er mwyn sicrhau bod gwasanaeth mwy cydlynol yn cael ei ddarparu ar gyfer y person ifanc, gan gynnwys datblygu system lwybro gadarn.<br><br>(TRACIO) | Mae gwaith ymchwil cychwynnol wedi'i wneud i nodi arferion effeithiol wrth nodi pobl ifanc sydd mewn perygl o ymddieithrio yn gynnar a chyfleoedd am drefniadau gwell ar gyfer rhannu data a broceriaeth. Rydym yn dadansoddi data Gyrfa Cymru ac ysgolion i nodi i ba raddau y mae newidynnau gwahanol yn effeithiol wrth ragweld pobl ifanc sydd mewn perygl o fynd yn bobl nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant. Caiff yr adroddiad hwn ei gyhoeddi ar 1 Hydref 2013.<br><br>Mae Cynllun Gweithredu y Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuenctid yn pennu 5 o gamau allweddol i gryfhau'r dull o dracio pobl ifanc drwy'r system a defnyddio a rhannu data yn fwy effeithiol.<br><br>• Cyn 16 - adeiladau ar adolygiad Uned Safonau Ysgolion Llywodraeth Cymru o dracio. |

| Rhif Cam | Gweithredu ar gyfer Ymgysylltu a Chyflogaeth Ieuenctid | Cynnydd |
|---|---|---|
| | | • Pontio o cyn 16 i ôl 16 - cyflwyno prosbectws ardal leol a phroses ymgeisio electronig gyffredin ar www.gyrfacymru.com<br>• Tracio 16-18 - ehangu arolwg Cyrchfan Gyrfa Cymru i gynnwys pobl ifanc mewn AB a Dysgu'n Seiliedig ar Waith; a rhoi diweddariadau rheolaidd ar lefelau ymgysylltu pobl ifanc yn erbyn y model 5 haen.<br>• Rhannu a defnyddio data yn fwy effeithiol - rydym yn disgwyl i ddarparwyr dysgu roi diweddariadau rheolaidd i Gyrfa Cymru am unrhyw bobl ifanc sydd wedi gadael eu darpariaeth neu sydd mewn perygl o adael; a bydd Gyrfa Cymru yn hysbysu Cydlynwyr Ymgysylltu a Datblygu yr awdurdodau lleol yn rheolaidd ar lefel awdurdod lleol ar statws pobl ifanc yn erbyn y model 5 haen.<br>• Ôl-18 - cryfhau'r cysylltiadau rhwng y Ganolfan Byd Gwaith a Gyrfa Cymru a chryfhau'r broses o dracio cyrchfannau o ddarparwyr ôl-16. |